LLAIS

Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care

# Adroddiad Ymgysylltu Llais Gorllewin Cymru

## Ebrill i Mehefin 2023



# Llais Gorllewin Cymru

Yr hyn rydyn ni yn ei wneud

Rydyn ni yma i sicrhau bod eich barn a'ch profiadau yn cael eu clywed a'u defnyddio gan y bobl sy'n cynllunio ac yn darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Rhaid i leisiau cryf pobl Cymru fod wrth wraidd system iechyd a gofal cymdeithasol effeithiol a chydgysylltiedig i Gymru

Rydyn ni yn credu mewn Cymru iachach lle mae pobl yn cael y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, maen nhw eu hangen mewn ffordd sy'n gweithio orau iddyn nhw.

Yn ystod ein mis cyntaf fel Llais, yn ein rhanbarth yng Ngorllewin Cymru, cyfarfu staff Llais â Chyfarwyddwyr Gofal Cymdeithasol ac uwch staff eraill ym mhob un o'r tair Sir am gyfarfod rhagarweiniol yn eu hysbysu o'n rôl.



Cyfarfu staff Llais â fforwm iechyd meddwl Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro hefyd, unwaith eto roedd hwn yn gyfarfod rhagarweiniol i egluro rôl Llais.

Rydyn ni wedi cyfarfod â rhai gwleidyddion lleol sy'n Aelodau o'r Senedd, unwaith eto yn codi ymwybyddiaeth o Llais ac yn gwrando ar eu pryderon a'r hyn y maen nhw yn ei glywed gan eu hetholwyr am iechyd a gofal cymdeithasol.

Mynychodd gwirfoddolwyr a staff Llais nifer o ddigwyddiadau ymgynghori cyhoeddus am ddewisiadau Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar gyfer lleoliad yr ysbyty newydd arfaethedig yn ystod mis Ebrill a mis Mai. Cynhaliwyd y digwyddiadau hyn ar draws y tair sir, yn nhrefi a phentrefi  Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro:

Llandybie, Llanymddyfri Caerfyrddin, Llanelli, Aberteifi, Aberystwyth, Sanclêr, Hendy-gwyn ar Daf, Aberdaugleddau, Wdig.



Roedd 3 opsiwn ar gael, roedd y rhain wedi'u datblygu yn dilyn proses arfarnu opsiynau ac yn golygu bod 2 safle yn Hendy-gwyn ac 1 safle yn Sanclêr yn cael eu hystyried

## Rhai o'r pethau y mae pobl yn eu dweud wrthym

Rwy'n poeni na fyddaf yn cyrraedd yr ysbyty yn ddigon cyflym mewn argyfwng

Beth am y seilwaith ffyrdd mae'r A40 mor brysur yn yr haf?

Pam mae angen ysbyty newydd arnom, mae gennym ddigon o fuddsoddiad yn y rhai sydd gennym?

O ble y byddwch chi'n cael staff?

Rwy'n credu bod angen Ysbyty, Hendy-gwyn ar Daf fyddai'r lle gorau

Nid yn unig y gwnaeth pobl ddweud eu barn a'u pryderon wrthym ar safle arfaethedig yr ysbyty newydd ond fe wnaethant hefyd godi rhai pryderon ar wasanaethau iechyd eraill

Mae aelod o'm teulu yn ei chael hi'n anodd cael apwyntiad meddyg

Cefais apwyntiad yr wythnos diwethaf yn Llwynhelyg cefais ofal rhagorol

Pryd mae uned mân anafiadau Llanymddyfri yn ailagor mae hi wedi bod ar gau ers cyn y pandemig

I weld ymateb Llais Gorllewin Cymru i'r ymgynghoriad, gweler ein gwefan: https://www.llaiscymru.org/newyddion-ac-adroddiadau/adroddiadau/llais-gorllewin-cymru-ymateb-i-ymgynghoriad-cyhoeddus-ar-leoli

Os hoffech chi gael copi caled, cysylltwch â Llais Gorllewin Cymru, Ystafell 5, Tŷ Myrddin, Hen Ffordd yr Orsaf, Caerfyrddin SA31 1LP

Ebostiwch: ymholiadau@llaiscymru.org neu ffoniwch 01646 697610



## Ym mis Mehefin

Bu Llais Gorllewin Cymru hefyd yn bresennol mewn digwyddiad rhannu gwybodaeth a drefnwyd gan Sefydliad y Merched Cwm Cou.

Roedd cynrychiolwyr o'r sefydliadau canlynol hefyd yn bresennol:

Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

Bwcabus

Heddlu Dyfed Powys

Cyngor Ceredigion

Cyswllt Ceredigion

Gofalwyr Ceredigion

Mae gan aelod o'r grŵp cymorth Parkinson lleol ddiddordeb mewn cael cyflwyniad gan Llais. Rydym bob amser yn barod i ddod draw i siarad â grwpiau lleol, waeth pa mor fawr neu fach, i ddweud wrthyn nhw am ein

gwaith a sut y gallwn weithio gyda'n gilydd i wella gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn ein tair sir.

Os hoffech i ni siarad â'ch grŵp, cysylltwch â ni ar:

ymholiadau@llaiscymru.org neu ffoniwch 01646 697610

Mae gwirfoddolwyr a staff Llais wedi bod yn gwrando ar ddigwyddiadau ymgynghori Bwrdd Iechyd Hywel Dda am wasanaethau plant. Mae'r ymgynghoriad hwn yn dal ar agor tan 24 Awst felly mae mwy o amser o hyd i bobl rannu eu barn, gyda digwyddiadau'n cael eu cynnal ar draws y tair sir.

Gwasanaethau Plant y Dyfodol - Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (gig.cymru)

Nid yw'r digwyddiadau yng Nghaerfyrddin, Wdig, Aberteifi, Aberdaugleddau a Hwlffordd wedi bod yn brysur, gyda dim ond ychydig o aelodau o'r cyhoedd yn dod draw.



## Beth mae pobl yn ei ddweud wrthym

> Dydw i ddim yn siŵr beth mae Llwynhelyg yn ei wneud nawr i blant, dywedodd fy meddyg teulu i mi fynd yno, ar ôl aros dros 3 awr cefais fy anfon i Glangwili. Yn sicr, dylwn i fod wedi cael fy anfon yno y tro cyntaf

> Es i Adran Frys Glangwili gyda fy mhlentyn 2 oed yn y nos, roedd yr ardal aros yn erchyll. Doedd dim lle i blant fod ar wahân. Roedd pobl wael yn aros i gael eu gweld, doeddwn i ddim eisiau i'm plentyn weld hynny i gyd. Dylai fod ardal ar wahân i blant

## Beth sydd i ddod?

Mae tîm Ymgysylltu Llais Gorllewin Cymru wedi bod yn brysur yn trefnu digwyddiadau lle gallwn fynd allan i gwrdd â phobl i glywed eu barn am iechyd a gofal cymdeithasol.

Ym mis Awst 2023 byddwn yn:

1. Sioe Sir Benfro
2. Carnifal y Borth
3. Digwyddiad Ray Ceredigion

Bydd rhai o staff a gwirfoddolwyr Llais yn mynychu Sioe Frenhinol Cymru ym mis Gorffennaf, eto i godi ymwybyddiaeth o Llais

Rydyn ni yn trefnu cyfarfod â rhai rheolwyr Cartrefi Gofal - bydd hwn yn gyfarfod rhagarweiniol, i godi ymwybyddiaeth o Llais

Mae tudalen Facebook Llais Cymru Gyfan wedi'i sefydlu . Mae'r tîm wrthi'n gosod tudalennau rhanbarthol fel y gallwch weld beth sy'n digwydd yn eich Llais lleol a rhannu ein gweithgareddau.

## Dilynwch ni ar

Facebook: @llaisCymruWales
Twitter: @llaiscymru